UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Amodau Gwaith

Mabwysiadu

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Mabwysiadu

Mae Deddf Gwaith a Theuluoedd 2006 wedi ymestyn hawliau rhieni ac yn sgil hyn mae'r daflen wybodaeth hon yn berthnasol i rieni a gaiff eu paru â phlentyn i'w fabwysiadu ar 1 Ebrill 2007 neu ar ôl hynny.

Noder: er y cyfeirir, yn y daflen hon, at athrawon, pwysleisir mai'r un yw hawliau statudol darlithwyr a gweithwyr eraill, a'r un yw cyfrifoldebau eu cyflogwyr hwythau.

Gall menyw neu ddyn fod yn gymwys ar gyfer **Absenoldeb Mabwysiadu Statudol a Thâl Mabwysiadu Statudol** felly, er hwylustod, am bob "athrawes" darllener hefyd "athro.

Absenoldeb Mabwysiadu Statudol

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Absenoldeb Mabwysiadu Statudol rhaid bod athrawes:

- wedi'i pharu'n ddiweddar â phlentyn, gan asiantaeth gymeradwy
- wedi gweithio i'r cyflogwr am 26 wythnos ddi-dor cyn dechrau'r wythnos pan dderbyniwyd yr hysbysiad swyddogol ei bod wedi'i pharu â phlentyn
- yn dweud wrth y cyflogwr y dymunir derbyn cyfnod absenoldeb mabwysiadu o fewn 7 diwrnod o dderbyn hysbysiad o baru â phlentyn

Wrth ddweud wrth y cyflogwr, rhaid dweud:

- pryd y disgwylir i'r plentyn gael ei leoli
- pryd y dymunir i'r cyfnod absenoldeb mabwysiadu gychwyn (gellir newid y dyddiad cychwyn ond rhaid rhoi 28 diwrnod o rybudd)

O dan yr amodau hyn mae hawl i:

- gyfnod **Absenoldeb Mabwysiadu Cyffredin** o 26 wythnos
- cyfnod **Absenoldeb Mabwysiadu Ychwanegol** o 26 wythnos pellach

Absenoldeb Mabwysiadu Cyffredin

Yn ystod y cyfnod absenoldeb mabwysiadu cyffredin bydd gan yr athrawes hawl:

- i holl hawliau cyflogaeth (heblaw am y rheiny sy'n ymwneud â chyflog)
- i ddychwelyd i'r un swydd
- Yn yr un modd, bydd yn parhau o dan yr un cytundeb, megis gorfod rhoi rhybudd gadael y swydd.

Absenoldeb Mabwysiadu Ychwanegol

Yn ystod y cyfnod absenoldeb mabwysiadu ychwanegol bydd gan yr athrawes hawl:

- i holl hawliau cyflogaeth (heblaw am y rheiny sy'n ymwneud â chyflog a manteision eraill e.e. car swyddogol)
- i ddychwelyd i'r un swydd (neu, lle nad yw hynny'n ymarferol rhesymol, ddychwelyd i swydd arall addas a phriodol)

Gellir ddechrau'r cyfnod absenoldeb:

- o'r dyddiad mae'r plentyn yn dechrau byw gyda'r teulu
- ar ddyddiad cyn hynny, hyd at 14 niwrnod cyn y dyddiad y disgwylir y bydd y plentyn yn dechrau byw gyda'r teulu

Gellir newid y dyddiad dychwelyd i'r gwaith ond rhaid rhoi o leiaf 56 diwrnod (8 wythnos) o rybudd.

Un rhiant sydd â'r hawl i'r cyfnod absenoldeb a rhaid i'r pâr ddewis pa un sydd yn derbyn y cyfnod. Efallai fod hawl gan y partner i absenoldeb tadolaeth gyda thâl tadolaeth statudol, sef **TTS** (gweler isod).

Mae hawl i gyfnod absenoldeb mabwysiadu beth bynnag yw oedran y plentyn, a hyd yn oed os yw'r teulu wedi maethu'r plentyn cyn hyn.

Nid oes hawl gan lystad neu lysfam sydd yn mabwysiadu plentyn partner dderbyn cyfnod absenoldeb mamolaeth.

Tâl Mabwysiadu Statudol

Mae Tâl Mabwysiadu Statudol ar gael i'r rhiant sydd yn cymryd y cyfnod absenoldeb, os ydyw wedi:

- ennill digon o gyflog i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol (o leiaf £87 yr wythnos)
- rhoi tystiolaeth i'r cyflogwr o'r hysbysiad swyddogol o baru â phlentyn

- rhoi o leiaf 28 diwrnod o rybudd i'r cyflogwr o'r dyddiad y bwriedir gorffen gweithio a dechrau hawlio'r Tâl
- gorffen gweithio

Mae'r Tal Mabwysiadu Statudol ar gael am 39 wythnos, gyda thâl o £112.75 yr wythnos (neu 90% o'r enillion os yw hyn yn llai). Mae gweddill y cyfnod (sef 13 wythnos) yn ddi-dâl. Mae rhai cyflogwyr yn cynnig mwy o dâl na hyn. Awgrymir eich bod yn holi.

Noder: Gall fod tâl galwedigaethol ar gyfer mabwysiadu ond mae hyn yn dibynnu ar drefniadau lleol. Cysylltwch â'ch AALl i holi.

Cadw Cysylltiad Adeg Absenoldeb Mabwysiadu

- Dylai'r ysgol gadw cysylltiad rhesymol, yn enwedig o ran cyflwyno gwybodaeth am ddatblygiadau pwysig a chyfleoedd swyddi neu ddyrchafiad fyddai ar gael. Argymhellir trafod y modd o wneud hynny cyn dechrau'r cyfnod absenoldeb.
- Argymhellir hefyd fod yr athrawes yn cadw cysylltiad â'r ysgol ac yn gadael i'r ysgol wybod am fwriadau parthed dychwelyd pan fydd hynny'n bosibl.
- Mae nawr yn bosibl gweithio hyd at **10 Diwrnod Cadw Cysylltiad** yn ystod cyfnod absenoldeb mabwysiadu, heb golli unrhyw dâl statudol ac mae modd derbyn tâl am y gwaith.
- Ni all y naill ochr na'r llall fynnu defnyddio'r diwrnodau cadw cysylltiad hyn; byddai rhaid dod i gytundeb a hefyd gytuno ar y tâl.
- Mae unrhyw gyfnod o weithio e.e. mynychu cyfarfod am ddwy awr, yn cyfrif fel un diwrnod cadw cysylltiad llawn.

Dychwelyd i'r Gwaith ar ôl Absenoldeb Mabwysiadu

Mae hawl gan yr athrawes ddychwelyd:

- (ar ddiwedd cyfnod absenoldeb mabwysiadu cyffredin) i'r swydd yr oedd yn ei gwneud cyn hynny
- (ar ddiwedd cyfnod mabwysiadu ychwanegol) i'r swydd yr oedd yn ei gwneud cyn hynny, neu os nad yw hynny yn ymarferol rhesymol, i swydd arall addas a phriodol
- i amodau a thermau nad ydynt yn llai ffafriol na chynt
- i'r un statws a chyda'r un hawliau pensiwn â chynt

Yn y cyd-destun hwn, golyga “swydd” natur a maint y gwaith y mae wedi ei chyflogi i’w wneud a’r lle y mae wedi ei chyflogi iddo.

- Os nad yw’n ymarferol rhesymol iddi ddychwelyd i’r swydd yr oedd yn ei gwneud cynt oherwydd diswyddiadau oherwydd gormodedd, mae hawl gan yr athrawes gael cynnig swydd arall, cyn belled â bod y gwaith sydd i’w gyflawni o fewn y swydd honno yn addas iddi hi ac yn briodol i’r amgylchiadau.
- Ni ddylai maint y gwaith, y lle y bwriedir ei chyflogi a’i hamodau gwaith fod yn llai ffafriol na phe bai hi wedi cael dychwelyd i’w swydd wreiddiol.
- Os yw athrawes ar gyfnod mabwysiadu cyffredin neu ychwanegol ac am ddychwelyd cyn diwedd y cyfnod, rhaid iddi roi o leiaf 56 diwrnod (8 wythnos) o rybudd ysgrifenedig i’r cyflogwr.
- Os bydd yr athrawes yn sâl ar y diwrnod y bwriada ddychwelyd, bydd yn gweithredu o dan amodau salwch.

Absenoldeb Tadolaeth

Gall partneriaid sydd yn deilwng gael hyd at bythefnos o gyfnod tadolaeth gyda thâl (TTS £112.75 yr wythnos, Ebrill 2007) ar fabwysiadu plentyn. Caniateir un cyfnod tadolaeth yn unig ar gyfer y mabwysiadu (hynny yw, ni ellir cymryd y cyfnod fel diwrnodau nac wythnosau ar wahân). Awgrymir eich bod yn holi eich cyflogwr am y tâl – fe all fod yn fwy ffafriol na’r tâl statudol.

Bydd yn rhaid i’r gweithiwr sydd yn hawlio absenoldeb tadolaeth hysbysu’r cyflogwr o’r canlynol o fewn 7 diwrnod o dderbyn hysbysiad o baru â phlentyn:

- pryd y disgwylir i’r plentyn gael ei leoli
- hyd y cyfnod tadolaeth
- dyddiad dechrau’r absenoldeb tadolaeth (Gall y gweithiwr newid ei feddwl os yw’n rhoi 28 diwrnod o rybudd).

Rhaid cymryd yr absenoldeb ar ôl lleoli’r plentyn a’i gwblhau o fewn 56 diwrnod i’r lleoliad.

Mae’r hawl ar gael os ydych:

- yn mabwysiadu’r plentyn
- yn briod neu’n bartner i’r fam, gan gynnwys partner o’r un rhyw
- yn cymryd cyfrifoldeb dros fagwraeth y plentyn
- yn cymryd cyfnod tadolaeth i gefnogi’r fam a gofalu am y plentyn

Mae gan y cyflogwr yr hawl i ofyn am ddatganiad fod y gweithiwr:

- mewn perthynas parhaol gyda'r fam
- gyda chyfrifoldeb dros fagwraeth y plentyn
- yn cymryd cyfnod tadolaeth er mwyn cefnogi'r fam a gofalu am y plentyn
- yn mabwysiadu plentyn (angen tystiolaeth paru gyda phlentyn)

Ni fydd y gweithiwr yn colli unrhyw hawliau cyflogaeth yn ystod y cyfnod o absenoldeb tadolaeth e.e. bydd y cyfraniadau pensiwn yn parhau a bydd y cyfnod yn cyfrif tuag at flynyddoedd o wasanaeth.

Tâl Aelodaeth UCAC

Mae gan aelodau UCAC sydd ar absenoldeb mabwysiadu hawl i ostyngiad yn eu tâl aelodaeth **os ydynt yn talu hwnnw trwy ddebyd uniongyrchol**.

Yn naturiol, mae yna amodau ynghlwm â'r gostyngiad hwn. Rhestrir yr amodau yn Rheol 5(ch) o Gyfansoddiad UCAC, ond fe'u nodir yma hefyd, er hwylustod.

- Dim ond aelodau sydd yn talu â debyd uniongyrchol misol sydd â'r hawl i leihad yn y tanysgrifiad.
- Os ydych ar fin cychwyn ar gyfnod o absenoldeb mabwysiadu, **rhaid i chi hysbysu'r Brif Swyddfa** o hynny. Unwaith i chi wneud hynny bydd eich tâl aelodaeth fisol yn cael ei haneru am gyfnod o **dri mis**.
- Ar ddiwedd y tri mis, newidir y debyd uniongyrchol yn ôl i'r tâl llawn.
- Os ydych yn cymryd absenoldeb hirach bydd angen i chi hysbysu'r Undeb o'r dyddiad yr ydych yn bwriadu dychwelyd i'r gwaith. Byddwch yn **parhau i dalu hanner y tâl aelodaeth bob mis hyd nes y byddwch yn dychwelyd i'r gwaith**.
- Os nad ydych yn hysbysu'r Undeb eich bod yn cymryd cyfnod absenoldeb hirach, dim ond am y tri mis cyntaf byddwn yn haneru eich taliadau.

Cofiwch, hefyd, hysbysu UCAC os ydych yn newid eich categori aelodaeth wrth ddychwelyd i'r gwaith. Er enghraifft, efallai y byddwch yn mynd i weithio'n rhan amser yn hytrach na gweithio'n llawn amser.
Mae'r cyfrifoldeb arnoch chi, felly, i hysbysu UCAC o'ch sefyllfa. Ni all UCAC roi ad-daliad i unrhyw aelod sydd heb wneud hyn (gweler Rheol 5(e) o'r Cyfansoddiad). Ar ôl i chi gysylltu, bydd UCAC yn cadarnhau'r trefniadau mewn llythyr.

Gwybodaeth ac Ymholiadau Pellach

Yswiriant Gwladol: os ydych ar fin cymryd cyfnod o absenoldeb mabwysiadu, ysgrifennwch at eich Swyddfa Yswiriant Gwladol lleol i ddweud eich bod am sicrhau credyd yswiriant am y cyfnod. Os na wnewch hyn, gallai effeithio ar eich pensiwn gwladol.

Trefniadau mabwysiadu'r AALl: yn gyffredinol mae trefniadau'r Awdurdodau Addysg Lleol yn seiliedig ar y Llyfr Bwrgwyn (*Burgundy Book*). Ond gall AALl ddarparu eu trefniadau eu hunain cyn belled ag y bônt yn rhagori ar y Llyfr Bwrgwyn. **Mae UCAC yn cymell pob athrawes sydd yn mabwysiadu i holi am delerau a threfniadaeth ei Hawdurdod.**

Cytundebau tymor byr: mae'n holl bwysig bod athrawon a gyflogir ar gontractau tymor byr yn ceisio sicrhau eu bod yn ddi-dor. Gall unrhyw doriad rhwng contractau amharu ar hawliau mabwysiadu.

Manylion a chyfeiriadau defnyddiol

- Gwefan Adran Gwaith a Phensiynau'r Llywodraeth **www.dwp.gov.uk**
- Gwefan Adran Masnach a Diwydiant (amryw o ganllawiau defnyddiol) **www.dti.gov.uk/er/workingparents.htm**

I gael unrhyw gyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:

- Eryl Owain, Swyddog Maes y Gogledd, eryl@athrawon.com
- Dilwyn Roberts-Young, Swyddog Maes y De, dilwyn@athrawon.com

Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:

- Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol, elaine@athrawon.com
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi, rebecca@athrawon.com

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com